



Dŵr Cymru  
Welsh Water

# Dogfen Taliadau Cyfanwerthu

2023-24



## Cyflwyniad

Cynhyrchwyd y ddogfen hon i gydymffurfio â 'Rheolau Taliadau Cyfanwerthu'r Awdurdod Rheoleiddio Gwasanaethau Dŵr o dan adrannau 66E ac 1171 o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991' Ofwat ar gyfer safleoedd cymwys. Yn unol â gofynion gwybodaeth adran A3 o'r rheolau ar daliadau cyfanwerthu, mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r taliadau sylfaenol, sef y taliadau nodweddiadol sy'n gysylltiedig â thaliadau blynyddol ar sail mesurydd a/neu daliadau dŵr cyfeintiol. Câi'r rhain eu cymhwyso i unrhyw gytundeb 66D lle bo Adwerthwr yn rhan o'r cytundeb hwnnw.

Mae cwmpas y farchnad sy'n agored i gystadleuaeth ar gyfer cwsmeriaid sy'n cael eu gwasanaethu gan gwmnïau sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru'n gyfyngedig i ddarparu gwasanaethau dŵr, ac mae'n cwmpasu cwsmeriaid annomestig â safleoedd Cymwys. Codir taliadau ar y cwsmeriaid hyn gan ddefnyddio ein tariffau diwydiannol am ddŵr yfadwy, tariffau diwydiannol am ddŵr anyfadwy, ein tariffau safonol neu gytundebau arbennig.

## Atebolrwydd am daliadau

Cyhoeddir anfonebau am daliadau Sylfaenol yn unol ag Amserlen Bilio Cyfanwerthu'r Cwmni. Codir tâl ar bob Adwerthwr am gyflenwi Gwasanaethau Dŵr ar gyfer SPIDs cysylltiedig sydd wedi cofrestru iddo odeg darparu'r gwasanaethau. Codir taliadau am safleoedd segur yn unol â Chodau'r Farchnad.

## Dogfennau eraill am daliadau

### Y Cynllun Taliadau

Ein taliadau dŵr a charthffosiaeth ar gyfer cwsmeriaid domestig ac annomestig.

### Cynllun Taliadau'r Gwasanaethau Datblygu

Taliadau am gysylltiadau newydd a gweithgareddau eraill i gynorthwyo datblygwyr.

### Gwybodaeth am Daliadau ar gyfer Apwyntiadau Newydd ac Amrywiadau (NAVs)

Y fethodoleg ar gyfer codi taliadau swmpgyflenwi a thaliadau perthnasol eraill ar gyfer NAVs.

## Sut i gysylltu â ni

### Ffôn

0800 2605053 (24 awr)

### Ar Lein

wholesale.dwrcymru.com

### E-bost

WholesaleServiceCentre@dwrcymru.com

### Post

Canolfan Gwasanaethau Cyfanwerthu Dŵr Cymru  
Blwch SB 3164  
Coerdydd  
CF30 0FF

Ein horiau gwaith ar gyfer derbyn gohebiaeth yw 8am i 6pm dydd Llun i ddydd Gwener (heblaw am wyliau banc)

## Adran 1 – Tablau Crynhoi'r Taliadau Sylfaenol

### Dŵr Yfadwy Mesuredig – Tabl 1

Disgrifiad	Uned	Tâl (£)	Cod Tariff CMOS	Enw'r Tariff CMOS	Elfen Tâl CMOS	Enw'r Elfen Tâl CMOS
Maint y mesurydd hyd at 20mm	£/ blwyddyn	15.68	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Maint y mesurydd 25mm	£/ blwyddyn	85.62	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Maint y mesurydd 30mm	£/ blwyddyn	163.86	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Maint y mesurydd 40mm	£/ blwyddyn	318.57	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Maint y mesurydd 50mm	£/ blwyddyn	489.91	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Maint y mesurydd 65mm	£/ blwyddyn	659.79	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Maint y mesurydd 80mm	£/ blwyddyn	877.99	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Maint y mesurydd 100mm	£/ blwyddyn	1045.54	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Maint y mesurydd 150mm +	£/ blwyddyn	1348.68	Amrywiol	Perthnasol i bob tariff dŵr mesuredig	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Tâl safonol cyfeintiol dŵr yfadwy	£/m <sup>3</sup>	1.5402	DC-PW-LT50	Cyfradd Safonol Dŵr Yfadwy	D7103	Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Dŵr Yfadwy

## Dŵr Yfadwy Mesuredig – Tabl 1

Disgrifiad	Uned	Tâl(£)	Cod Tariff CMOS	Enw'r Tariff CMOS	Elfen Tâl CMOS	Enw'r Elfen Tâl CMOS
Tariff Diwydiannol Band 1	£/ blwyddyn	22505.96	DC-PW-50-99	Dŵr Yfadwy 50-99ML	D7102	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Dŵr Yfadwy
Tariff Diwydiannol Band 1	£/m <sup>3</sup>	1.090	DC-PW-50-99	Dŵr Yfadwy 50-99ML	D7103	Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol Band 2	£/ blwyddyn	27162.54	DC-PW-100-249	Dŵr Yfadwy 100-249ML	D7102	Taliadau Pwynt Sefydlog Cyflenwad Dŵr Yfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol Band 2	£/m <sup>3</sup>	1.0435	DC-PW-100-249	Dŵr Yfadwy 100-249ML	D7103	Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol Band 3	£/ blwyddyn	41806.48	DC-PW-250-499	Dŵr Yfadwy 250-499ML	D7102	Taliadau Pwynt Sefydlog Cyflenwad Dŵr Yfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol Band 3	£/m <sup>3</sup>	0.9849	DC-PW-250-499	Dŵr Yfadwy 250-499ML	D7103	Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol Band 4	£/ blwyddyn	83291.08	DC-PW-500-999	Dŵr Yfadwy 500-999ML	D7102	Taliadau Pwynt Sefydlog Cyflenwad Dŵr Yfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol Band 4	£/m <sup>3</sup>	0.9019	DC-PW-500-999	Dŵr Yfadwy 500-999ML	D7103	Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol Band 5	£/ blwyddyn	160882.82	DC-PW-GT1000	Dŵr Yfadwy GT 1000ML	D7102	Taliadau Pwynt Sefydlog Cyflenwad Dŵr Yfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol Band 5	£/m <sup>3</sup>	0.8243	DC-PW-GT1000	Dŵr Yfadwy GT 1000ML	D7103	Tariff Bloc Dŵr Yfadwy Mesuredig

## Dŵr Anyfadwy Mesuredig – Tabl 2

Disgrifiad	Uned	Tâl(£)	Cod Tariff CMOS	Enw'r Tariff CMOS	Elfen Tâl CMOS	Enw'r Elfen Tâl CMOS
Maint y mesurydd 20mm i 150mm+	£/ blwyddyn		Amrywiol	Gweler y taliadau yn y tabl dŵr Yfadwy uchod	D7151	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Tâl cyfeintiol safonol dŵr crai	£/m <sup>3</sup>	1.3353	DC-RW-LE50	Dŵr Crai LE 50ML	D7153	Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol - dŵr crai	£/ blwyddyn	46356.34	DC-RW-GT50	Dŵr Crai GT 50ML	D7152	Taliadau Sefydlog Pwynt Cyflenwi Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol - dŵr crai	£/m <sup>3</sup>	0.4082	DC-RW-GT50	Dŵr Crai GT 50ML	D7153	Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Tâl cyfeintiol safonol dŵr wedi ei drin yn rhannol	£/m <sup>3</sup>	1.4323	DC-PT-LT50	LT wedi ei drin yn rhannol 50ML	D7153	Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol - dŵr wedi ei drin yn rhannol	£/ blwyddyn	45488.94	DC-PT-GT50	GT wedi ei drin yn rhannol 50ML	D7152	Taliadau Sefydlog Pwynt Cyflenwi Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol - dŵr wedi ei drin yn rhannol	£/m <sup>3</sup>	0.5225	DC-PT-GT50	GT wedi ei drin yn rhannol 50ML	D7153	Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig

## Trefniadau Arbennig - Tabl 3

Disgrifiad	Uned	Tâl (£)	Cod Tariff CMOS	Enw'r Tariff CMOS	Elfen Tâl CMOS	Enw'r Elfen Tâl CMOS
<b>WSHNONPOT 9</b>						
Maint y mesurydd 20mm i 150mm+	£/blwyddyn		Amrywiol	Gweler y tabl taliadau dŵr Yfadwy uchod	D7101	Taliadau Sefydlog Mesurydd Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol - dŵr crai	£/blwyddyn	46356.34	DC-RW-SAG	Dŵr crai SAG	D7152	Taliadau Sefydlog Pwynt Cyflenwi Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Cyfaint cadwedig tâl fesul diwrnod	Pris (£/b y m <sup>3</sup> y dydd)	0.2272	DC-RW-SAG	Dŵr crai SAG	D7154	Tâl Capositi Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Ffactor goddefiant	100		DC-RW-SAG	Dŵr crai SAG	D7155	Ffactor Goddefiant Premiwm Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Pris y m <sup>3</sup> llai'r pris cadwedig pris fesul m <sup>3</sup>	£/m <sup>3</sup>	0.181	DC-RW-SAG	Dŵr crai SAG	D7156	Tâl Cyfaint Defnydd Dyddiol Wrth Gefn Dŵr Anyfadwy Mesuredig
Tariff Diwydiannol - dŵr crai tâl cyfeintiol	£/m <sup>3</sup>	0.4082	DC-RW-SAG	Dŵr crai SAG	D7157	Tâl Defnydd Cyfeintiol Premiwm Dyddiol Dŵr Anyfadwy Mesuredig
<b>WSHNONPOT10a A WSHNONPOT10</b>	£/m <sup>3</sup>	0.4332	DC-PT-SAG	SAG wedi ei drin yn rhannol	D7153	Tariff Bloc Dŵr Anyfadwy Mesuredig

## Taliadau dŵr a ddefnyddir pan nad oes cyflenwad – Tabl 4

Disgrifiad	A: Taliadau sefydlog a chyfeintiol	B: Ni chodir tâl	C: Taliadau cyfeintiol yn unig
Taliad Safle Segur		X	
Taliad â Datgysylltiad Dros Dro			X

## Adran 2 – Gwybodaeth Ategol am y Taliadau Sylfaenol

### Taliadau Sylfaenol

Codir taliadau sefydlog fesul diwrnod calendr. Codir taliadau cyfeintiol am ddŵr ar sail y dŵr a ddefnyddir sy'n cael ei fesur gan fesurydd mewn metrau ciwbig oni bai bod y Cwmni'n cytuno i oddosiad cyfeintiol am ddŵr a ddefnyddir i ymladd tân neu ddŵr a gollir trwy ollyngiadau fel y disgrifir isod:

#### Dŵr a ddefnyddir i ymladd tân

Gellir codi tâl am yr holl ddŵr a ddefnyddir ac eithrio dŵr a ddefnyddir yn unswydd at ddbenion ymladd tân. Codir tâl am ddŵr a ddefnyddir ar gyfer profion ac ymarferion tân oni roddir 7 diwrnod o rybudd ysgrifenedig i'r Cwmni.

#### Lwfansau am ollyngiadau

Dim ond lle bu gollyngiad oedd yn gyfrifoldeb i'r Cwmni y caniateir lwfansau am daliadau cyfeintiol dŵr ar gyfer safleoedd annomestig<sup>1</sup>.

Caniateir lwfansau dŵr i safleoedd defnydd cymysg e.e. safleoedd annomestig a domestig cyfunol, er enghraifft Campws Prifysgol lle mae bloc llety a ddefnyddir fel cartref parhaol, ar elfen ddomestig y bil yn unig. Cyfrifir y lwfans ar gyfer yr elfen ddomestig ar sail y ffigurau defnydd blynyddol y mae'r Cwmni'n eu defnyddio i gyfrifo ein tariff mesuredig domestig. Mae manylion hyn yn y Cynllun Taliadau.

Rhaid cyflwyno cais am lwfans cyn pen chwe mis ar ôl trwsio'r gollyngiad. Ni chaiff y lwfans ei dalu os achoswyd y gollyngiad trwy esgeulustod y cwsmer neu rywun sy'n gweithredu ar ei ran.

### Tariff diwydiannol dŵr yfadwy

Mae'r tariff diwydiannol am ddŵr yfadwy yn cynnwys sawl band sy'n adlewyrchu defnydd blynyddol.

Mae Tabl 1 yn dangos y tariffau cyfanwerthu i ddefnyddwyr mawr ar gyfer pob un o'r pum band cyflenwi sy'n defnyddio dros 50 megalitr (Ml) neu 50,000m<sup>3</sup> y flwyddyn.

Mae pob band yn berthnasol i'r holl ddefnydd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 ac maent yn cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn;
- Tâl gwasanaeth blynyddol am bob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle sy'n seiliedig ar faint y mesurydd (a welir yn Nhabl 1) a;
- Thâl cyfeintiol am yr holl ddŵr a ddefnyddir.

### Tariff diwydiannol dŵr anyfadwy

Mae'r tariff diwydiannol am ddŵr anyfadwy ar gael wrth gyflenwi dŵr sydd wedi cael triniaeth rannol o dŵr crai, yn a dibynnu a yw'r dŵr wedi cael ei drin o gwbl. Mae Tabl 2 yn dangos y tariffau cyfanwerthu ar gyfer dŵr anyfadwy.

Mae pob band yn berthnasol i'r holl ddefnydd rhwng 1 Ebrill 2023 a 31 Mawrth 2024 ac maent yn cynnwys:

- Tâl sefydlog am y flwyddyn;
- Tâl gwasanaeth blynyddol am bob mesurydd sy'n gwasanaethu'r safle yn seiliedig ar faint y mesurydd (a welir yn Nhabl 1) a;
- Thâl cyfeintiol am yr holl ddŵr a ddefnyddir.

#### Ceisiadau i newid tariff

Ni fydd y Cwmni'n derbyn mwy nag un cais i newid tariff am ddŵr yfadwy neu anyfadwy ar gyfer unrhyw Bwynt Cyflenwi o fewn un mis calendr.

### Taliadau am eiddo segur a chyflenwadau a ddatgysylltwyd

Mae Tabl 4 yn dangos y taliadau a godir os yw eiddo'n segur a lle bo dŵr yn cael ei defnyddio ar gyflenwad a ddatgysylltwyd.

<sup>1</sup> Gall cwsmeriaid annomestig fod yn gymwys i gael lwfans carthffosiaeth ar gyfer y gollyngiad cyntaf lle nod yw'r dŵr a gollwyd wedi dychwelyd i'r garthffos.



## Adran 3 – Tablau Crynhoi'r Taliadau Ansyfhaenol

### Gwasanaethau Mesuryddion

Gweithgaredd	Disgrifiad	Tâl (£)
Profi mesuryddion	Prawf ag achrediad allanol o gywirdeb mesurydd, adroddiad ar gywirdeb y mesurydd a'r costau cysylltiedig	Pris ar gais
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd 25mm	80.59
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd 30mm	195.70
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd 40mm	256.22
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd 50mm	557.70
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd 80mm	622.64
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd 100mm	694.62
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd 150mm	797.43
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd 200mm	898.64
Cyfnewid mesurydd	Heb gloddio ar gyfer mesurydd dros 200mm	Gwir Gost
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 25mm	306.99
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 30mm	422.11
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 40mm	482.63
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 50mm	784.10
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 80mm	849.05
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 100mm	921.02
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 150mm	1,023.84
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 200mm	1,125.05
Cyfnewid mesurydd	Ag angen cloddio ar gyfer mesurydd 200mm	Gwir Gost
Logiwr data cyfanwerthu	Cyrchu data ar lein	12.43
Darllen mesurydd nad yw ar y farchnad	Darllen mesurydd nad yw ar y farchnad y tu hwnt i'r cylch cyffredin	33.49

## Archwiliadau dilysu ar y safle

Gweithgaredd	Disgrifiad	Tâl (£)
Un arolygydd	Cadarnhau a dilysu trefniadau cyflenwi neu gyflawni arolwg symud/ disodli mesurydd lle bo angen un arolygydd.	90.90
Un arolygydd	Awr ychwanegol (yr un ymweliad)	60.60
Un arolygydd	Ymweliad aflwyddiannus	45.45
Dau arolygydd	Cadarnhau a dilysu trefniadau cyflenwi neu gyflawni arolwg symud/ disodli mesurydd lle bo angen dau arolygydd.	174.62
Dau arolygydd	Awr ychwanegol (yr un ymweliad)	116.41
Dau arolygydd	Ymweliad aflwyddiannus	87.31

## Gwasanaethau Datgysylltu ac Ailgysylltu

Gweithgaredd	Disgrifiad	Tâl (£)
Datgysylltu	Datgysylltiad dros dro heb fod angen unrhyw waith hwyluso e.e. cau stoptap yn barhaol neu dynnu mesurydd.	Pris ar gais
Datgysylltu	Datgysylltiad parhaol lle bo cwsmer annomestig neu Adwerthwr yn gofyn i'r cyfanwerthwr ddatgysylltu eu gwasanaeth o'r brif bibell ddŵr yn barhaol. Bydd y Cwmni'n adfer yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio, gweinyddu, cyflwyno hysbysiadau statudol, datgysylltu ac adfer.	Pris ar gais
Ailgysylltu	Ailgysylltu datgysylltiadau dros dro.	Pris ar gais
Ailgysylltu	Coiff ceisiadau i ailgysylltu cyflenwadau a ddatgysylltwyd yn barhaol eu trin fel cais am gysylltiad newydd a chodir tâl yn unol â hynny. Gweler y Taliadau am Gysylltiadau Newydd yng Nghynllun Taliadau'r Gwasanaethau Datblygu.	Codir yr un tâl â chysylltiad newydd

## Gwasanaethau dŵr

Disodli pibellau gwasanaeth plwm – gweler Adran 4D

Darparu a defnyddio safbibellau – gweler Adran 4D

### Darparu a chynnal a chadw hydrantau tân

Gwasanaeth	Disgrifiad	Tâl (£)
Gosod hydrant	Ar brif bibell newydd (diamedr 80-200mm)	792.40
Gosod hydrant	Ar brif bibell sy'n bodoli eisoes (diamedr 80-200mm)	1,452.70
Gosod postyn/plât marcio		145.62
Tynnu postyn/plât marcio		145.62
Tynnu hydrant	Oddi ar y brif bibell bresennol (diamedr 80-200mm)	682.67
Trwsio hydrant	Categori 1 (e.e. caead a ffrâm)	262.17
Trwsio hydrant	Categori 2a (e.e. caead, ffrâm a rhan o siambr)	495.21
Trwsio hydrant	Categori 2b (e.e. caead, ffrâm, ailosod, wasier newydd)	800.85
Trwsio hydrant	Categori 3 (gosod hydrant hollol newydd)	886.96

## Endidau Achrededig

Gweler Adran 4E

## Cynlluniau Cymell

Gweler Adran 4F

## Gwasanaethau darparu gwybodaeth

Gweithgaredd	Disgrifiad	Tâl (£)
Geisiadau am wybodaeth safonol	Plan sy'n dangos lleoliad un mesurydd	6.60
Geisiadau am wybodaeth safonol	Copiau untro o wybodaeth logiwr data neu geisiadau eraill am wybodaeth debyg	6.60
Geisiadau am wybodaeth ansafonol	Codir tâl fel y bo'n briodol	Pris ar gais

## Taliadau Eraill

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Tâl (£)</b>
Archwiliad	Yr archwiliad cychwynnol a'r archwiliad dilynol cyntaf	Dim tâl
Archwiliad	Archwiliadau pellach	90.90
Archwiliad	Ymweliad aflwyddiannus	45.45

## Difrod i offer

<b>Gweithgaredd</b>	<b>Disgrifiad</b>	<b>Tâl (£)</b>
Difrod	Difrod trydydd parti a gwaith adfer	Pris ar Gais

## Adran 4 – Gwybodaeth Ategol am y Taliadau Ansylfaenol

### A: Gwasanaethau Mesuryddion

#### Profi mesuryddion a chyfnewid mesuryddion

Lle bo Adwerthwr yn gofyn i'r Cwmni gyflawni prawf ag achrediad allanol ar fesurydd sy'n gysylltiedig â SPID cofrestredig, bydd y tâl yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chost cyfnewid y mesurydd, profi'r mesurydd a pharatoi adroddiad ar gywirdeb y mesurydd. Os ceir bod y mesurydd gwreiddiol yn gweithredu y tu hwnt i'r cwrpas cywirdeb sy'n gysylltiedig â'r mesurydd, ni fydd y Cwmni'n codi tâl am gost y prawf nac am gyfnewid y mesurydd. Codir tâl rhesymol ar sail cost am ymweliadau aflwyddiannus mewn perthynas â'r holl daliadau a restrir yn y tabl isod.

#### Gwasanaethau telemetreg a mesuryddion

Darperir mynediad at ddata arlein o offer telemetreg Dŵr Cymru yn unol â'r amodau a'r telerau safonol sydd i'w gweld [yma](#).

### B: Archwiliadau Dilysu ar y Safle

Lle bo Adwerthwr yn gofyn am gadarnhad o'r trefniadau cyflenwi neu arolwg symud/disodli mesurydd ar safle eu cwsmer, mae'r tâl safonol yn caniatáu i'r arolygydd fod ar y safle am hyd at un awr. Mae'r trefniadau cyflenwi ar gyfer cwsmeriaid â safleoedd cymwys yn aml yn gymhleth, ac yn y mwyafrif o achosion, byddant yn gofyn bod dau arolygydd yn bresennol am resymau diogelwch. Codir taliadau ychwanegol os oes angen i'r arolygydd neu'r arolygwyr fod ar y safle y tu hwnt i awr yr apwyntiad, neu os oes angen iddynt ddychwelyd i gwblhau'r arolwg. Codir tâl os oes angen atal yr arolwg ar gais yr adwerthwr neu ar gais cwsmer yr Adwerthwr.

### C: Datgysylltu ac Ailgysylltu cyflenwad dŵr

Sef datgysylltu pibell gyflenwi (neu dorri cysylltiad dŵr fel arall) i unrhyw safle ac ailgysylltu'r cyflenwad hwnnw â phrif bibell ddŵr. Os oes angen cyflawni gwaith hwyluso pellach er mwyn caniatáu ar gyfer neilltuo'r cyflenwad, darperir amcangyfrif o gost y gwaith. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus

### D: Gwasanaethau Dŵr

#### Disodli pibellau gwasanaeth plwm

Cyfrifoldeb y cwsmer yw'r pibellwaith o ffin yr eiddo i mewn i'r eiddo ei hun fel rheol. Os yw'r Cwmni'n canfod bod lefel y plwm yn y sampl dŵr yn uwch na'r safon reoliadol, bydd yn cysylltu â'r cwsmer i'w gynghori ar ffyrdd o leihau'r ddatguddiad i blwm. Bydd y Cwmni'n disodli unrhyw bibellau plwm sy'n gyfrifoldeb iddo e.e. rhwng y brif bibell ddŵr â ffin yr eiddo, am ddim.

#### Darparu a defnyddio safbibellau

Mae safbibellau ar gael i'w llogi trwy asiant penodedig y Cwmni. Dim ond at ddefnydd penodol y ceir llogi safbibellau. Dim ond safbibellau a logir gan ein hasiant penodedig, gyda'n caniatâd ni, y caniateir eu defnyddio ar ein rhwydwaith. Mae gan bob safbibell fesurydd, ac ychwanegir TAW at y taliadau dŵr yn hynny o beth. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus. Am fanylion llawn, ewch i [dwr.cymru.com](http://dwr.cymru.com)

#### Darparu a chynnal a chadw hydrantau tân

Lle bo'r Gwasanaeth Tân yn gofyn i'r Cwmni osod neu drwsio Hydrant Tân, bydd y Cwmni'n adfer yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag ymchwilio, gweinyddu, cyhoeddi hysbysiadu statudol a thrwsio/gosod. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus.

## E: Endidau Achrededig

Mae'r Cwmni'n gweithredu cynllun achredu ar gyfer datgysylltiadau dros dro ac ailgysylltiadau dros 40mm. Nid yw'r Cwmni'n gweithredu cynllun achredu ar gyfer gweithgareddau datgysylltu dros dro dros 40mm na datgysylltiadau parhaol o fewn ei ardal.

## F: Cynlluniau Cymell

Nid yw'r Cwmni'n cynnig unrhyw gynlluniau cymhellad o fewn ei ardal.

## G: Gwasanaethau darparu gwybodaeth

Mae ceisiadau safonol am wybodaeth am blaniau, copiau untro o ddata logiwr, neu geisiadau am wybodaeth debyg y tu hwnt i'r gwmpas ar gyfer TAW.

## H: Gwasanaethau Eraill

### Archwiliadau ar ffitiadau dŵr

Sef cyflawni archwiliad i ganfod a oes unrhyw ddarpariaeth sydd wedi'i chynnwys yn Neddf y Diwydiant Dŵr 1991 neu y mae'r ddeddf yn effeithio arni mewn perthynas ag unrhyw ffitiadau dŵr wedi, neu yn cael ei thorri. Ar ôl cyflawni archwiliad cychwynnol o dan y Rheoliadau Ffitiadau Dŵr lle mae'r Cwmni'n darganfod bod y darpariaeth wedi ei thorri, byddwn ni'n cytuno ar raglen waith ac amserlen ar gyfer cwblhau'r gwaith gyda'r adwerthwr/ cwsmer. Lle na chyflawnir y camau y cytunir arnynt, a bod angen cyflawni ymweliadau pellach i sicrhau cydymffurfiaeth, codir tâl fesul awr i gwmpasu cost yr ymweliadau ychwanegol.

### Difrod i offer (y tu hwnt i gwmpas TAW)

Lle bo trydydd parti'n gwneud difrod i ased, bydd y Cwmni'n adfer yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag archwilio, gweinyddu, cyflwyno hysbysiadau statudol, toriadau mewn gwasanaethau i gwsmeriaid, trwsio ac adfer yr ased. Codir tâl rhesymol am ymweliadau aflwyddiannus.

## Adran 5 – Telerau Talu

### Sut i dalu

#### Taliadau BACS

Cod didoli: 52-21-07

Rhif y cyfrif: 01500007

#### BACS o dramor:

Rhif IBAN: GB51 NWBK 5221 0701 5000 07

Rhif BIC: NWBK GB 21 22X

Cofiwch gynnwys eich cyfeirnod cwsmer wrth wneud eich taliad.

### Treth ar Werth

Ychwanegir TAW at daliadau cyflenwi dŵr (gan gynnwys dŵr ar ddibenion adeiladu) adwerthwyr. Lle codir TAW, bydd hynny ar y gyfradd sydd mewn grym adeg cyhoeddi'r anfoneb neu adeg talu'r blaendol. Ychwanegir TAW at daliadau am yr holl wasanaethau ansylfaenol ac ar werth oni nodir fel arall.

### Anghydfodau

Caiff unrhyw anghydfodau ac anghydweld sy'n deillio o'r gwasanaethau cyfanwerthu a ddarperir ar gyfer adwerthwyr, neu sy'n gysylltiedig â'r rhain, eu trin a'u datrys yn unol ag Adrannau 17 ac 19 o'r Telerau Busnes ac Adran 17, 18 ac Atodlen 9 o God Trefniadau'r farchnad.

## Adran 6 – Diffiniadau

Yn y ddogfen hon, oni bai bod y cyd-destun yn mynnu fel arall:

**'Adwerthwr'** yw deiliad Awdurdodiad Adwerthu Cyfyngedig, sef awdurdodiad a ddisgrifir ym mharagraff 6 o atodlen 2A o Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991 h.y. yr awdurdod i ddefnyddio system gyflenwi Ymgymerydd sy'n gweithredu'n llwyr neu'n bennaf yng Nghymru at ddibenion caniatáu i'r adwerthwr ddarparu gwasanaethau adwerthu ar gyfer safleoedd cymwys sy'n defnyddio 50 megalitr neu ragor o ddŵr y flwyddyn; neu dim Adwerthu Masnachol y Cwmni.

**'Cwmni'** yw Dŵr Cymru Cyfyngedig.

**'Cysylltiad'** yw cysylltiad sy'n cael ei reoleiddio gan y Ddeddf a deddfwriaeth berthnasol arall, sy'n caniatáu i'r cwsmer gael budd o wasanaethau'r Cwmni.

**'Datgysylltiad dros dro'** yw unrhyw ddatgysylltiad ffisegol mewn perthynas â gwasanaethau Dŵr nad yw'n Ddatgysylltiad Parhaol, a chaiff "Datgysylltu Dros Dro" ei ddehongli'n unol â hynny.

**'Datgysylltiad parhaol'** yw unrhyw ddatgysylltiad ffisegol mewn perthynas â gwasanaethau Dŵr lle bo cysylltiad â'r Rhwydwaith yn cael ei ddileu neu ei wneud yn anymarferol fel arall i'r fath raddau na all cyflenwi Gwasanaethau Dŵr yn y pwynt yna ailgychwyn heb greu cysylltiad newydd, a chaiff 'Datgysylltu Parhaol' ei ddehongli'n unol â hynny.

**'Deddf'** yw Deddf y Diwydiant Dŵr 1991 ac unrhyw ddiwygiadau iddi.

**'Dŵr anyfadwy'** yw dŵr na fwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a bennir yn y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**'Dŵr yfadwy'** yw dŵr y bwriedir iddo gyrraedd y safonau iachusrwydd a nodir yn y rheoliadau a wnaed o dan Ddeddf y Diwydiant Dŵr 1991.

**'Endid achrededig'** yw endid sy'n cael ei werthuso a'i achredu'n annibynnol o dan gynllun achredu a sefydlir gan y Cyfanwerthwr Contractio fel un sy'n hyfedr i gyflawni gweithgareddau penodol. Un o'r cynlluniau achredu hyn yw Cynllun Endidau Achrededig LRQA i'r Diwydiant Dŵr (WIRSAE), sy'n cymeradwyo darparwyr i gyflawni gweithgareddau penodol ar gyfer Adwerthwyr fel dewis arall yn hytrach na'r Cyfanwerthwr perthnasol.

**'Mesurydd nad yw'n un y farchnad'** mesurydd dŵr, nad yw'n gofrestredig i Bwynt Cyflenwi, sy'n eiddo i Ymgymerydd, ac sy'n fesurydd diddwythol ar Rwydwaith o Fesuryddion.

**'Pibell gyflenwi'** yw unrhyw ran o bibell wasanaeth nad yw'n ofynnol i'r Cwmni ei gosod o dan Adronau 45 a 46 o'r Ddeddf.

**'Pibell wasanaeth'** yw'r bibell (neu ran o'r bibell) sy'n cyflenwi dŵr o brif bibell y Cwmni i unrhyw safle, fel y'i diffinnir yn Adran 219 o'r Ddeddf.

**'Rheoliadau Ffitiadau Dŵr'** yw Rheoliadau Cyflenwi Dŵr (Ffitiadau Dŵr) 1999.

**'Safle cymwys'** yw safle unrhyw gwsmer annomestig sy'n defnyddio mwy na 50 megalitr o ddŵr y flwyddyn.<sup>2</sup>

**'SPID'** yw' Clustnodwr Pwynt Cyflenwi (a ddefnyddir i glustnodi pwyntiau cyflenwi unigryw yn y Farchnad Trwyddedau Cyflenwi Dŵr).

'**Tâl ansylfaenol**' yw unrhyw Daliadau Cyfanwerthu nad ydynt yn Daliadau Sylfaenol ac, er mwyn osgoi amheuaeth, mae hyn yn cynnwys yr holl daliadau sy'n ymwneud â darparu gwasanaethau untro neu ar wahân a gyflawnir o dan y Telerau Gweithredol neu fel a bennir fel arall yn y Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu mewn perthynas ag amgylchiadau neu ddigwyddiadau penodol.

'**Tâl/Taliadau Sylfaenol**' yw'r holl daliadau hynny yn y Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu sy'n ymwneud â chyflenwi Gwasanaethau Dŵr ar sail barhaus neu dros dro, ac maent yn cynnwys:

- i. Taliadau a lwfansau sefydlog a chyfeintiol;
- ii. Unrhyw daliadau eraill a bennir yn y Ddogfen Taliadau Cyfanwerthu mewn perthynas ag amgylchiadau neu ddigwyddiadau penodol.

Ond nid ydynt yn cynnwys:

- i. Unrhyw daliadau sy'n ymwneud â gwasanaethau untro neu ar wahân a gyflawnir yn unol â'r Telerau Gweithredol;
- ii. Unrhyw daliadau a gyfrifir mewn perthynas â Chytundeb Arbennig gan gyfeirio at y Ffactor(au) perthnasol.

'**Treth ar Werth**' neu 'TAW' yw'r dreth ar werth a godir o dan Ddeddf Treth ar Werth 1994 neu unrhyw dreth neu ardreth a ddaw yn ei lle.

## Yr ardal a wasanaethwn

